Ysgol Glan Ceubal Corff Llywodraethol Llawn (FGB): Pwyntiau allweddol o’n cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 30-01-24

1. Clywsom gyflwyniad o lwyddiannau ac amcanion gan 4 disgybl o'r Cyngor Eco (aelodau Bl5&6). Siaradodd yr holl ddisgyblion yn wych a chawsom ein syfrdanu gan eu cyflawniadau a oedd yn cynnwys cael gwared ar boteli plastig untro o’n darpariaeth prydau ysgol.

Disgwylir i'w harweinyddiaeth a'u hymdrechion ar y mater penodol hwn barhau. Drwy rannu eu stori, maent yn awr yn gobeithio trawsnewid y ffordd y darperir diodydd amser cinio i ddisgyblion ledled Caerdydd. Byddai hynny’n mynd â dros 21,000 o boteli plastig untro allan o’r ddinas bob blwyddyn! Da iawn a diolch i bawb a gymerodd ran, mae hwn yn waith pwysig a dylech fod yn falch iawn ohonoch eich hun.

2. Cytunodd y bwrdd lywodraethwyr yn ffurfiol i gynnal eu hunain i'r safonau ymddygiad uchaf wrth gyflawni'r rôl freintiedig hon. Gyda’i gilydd, y corff llywodraethu llawn yw’r grŵp o bobl sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am yr ysgol. Os hoffech weld rhestr o'n llywodraethwyr cliciwch yma.

3. Parhawyd ag un o brif swyddogaethau'r BLL, sef adolygu, ystyried a mabwysiadu polisïau ysgol. Roedd y polisïau Diogelu a Chydraddoldeb i'w hystyried y tro hwn. Mae’r dogfennau hanfodol hyn yn sicrhau eglurder, cysondeb ac arfer effeithiol er lles pawb o fewn cymuned ein hysgol. Gallwch ddod o hyd i'n holl bolisïau cyfredol yma.

4. Derbyniasom adroddiad manwl gan y pennaeth yn ein galluogi i dracio cynnydd a monitro perfformiad mewn nifer o feysydd. Mae’r craffu, y cymorth a’r her a roddir gan lywodraethwyr yn helpu i gyflawni swyddogaeth gynradd arall fel “ffrind beirniadol” yr ysgol. Rhoddwyd adroddiadau diweddaru hefyd gan sawl cadeirydd is-bwyllgor. Mae is-bwyllgorau yn cynnwys lywodraethwyr penodol sy'n cyfarfod ar wahân trwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt gyfrifoldeb am rai meysydd penodol e.e. Iechyd a Diogelwch, Cwricwlwm a Gwella, Diogelu a Chyllid.

5. Nodwyd bod y cynnig i ehangu Mynydd Bychan (MB) i fod yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg â dau ddosbarth mynediad yn adeilad Ysgol Gynradd Allensbank wedi'i dderbyn gan gabinet y Cyngor ar 18 Ionawr. Roedd hwn yn gynnig a wrthwynebwyd yn ffurfiol gan FGB Ysgol Glan Ceubal (YCG) fel rhan o ymarfer ymgynghori blaenorol. Roeddem yn gwrthwynebu oherwydd credwn y bydd hyn yn effeithio ar YGC mewn ffordd negyddol, gan arwain at lai o ddisgyblion yn cael eu lleoli yng Nglan Ceubal. Mae llai o ddisgyblion yn dod i YGC (o blaid MB) yn golygu llai o gyllid ar gyfer YGC, sy'n dod i mewn fesul niferoedd disgyblion.

Yn dilyn y cyhoeddiad, byddwn yn parhau i lobïo'r Cyngor i ystyried newidiadau yn y dyfodol i ehangu dalgylch YGC i liniaru canlyniadau negyddol posibl i'n hysgol.

---

**Ysgol Glan Ceubal Full Governing Body (FGB): key updates from our last meeting, held 30-01-24**

1. We heard a presentation of recent successes and aims from 4 pupils of the Eco Council (Bl5&6 members). All the pupils spoke wonderfully and we were blown away by their achievements, which included eliminating single use plastic bottles from our school meal provision.

Their leadership and efforts on that particular issue are set to continue. By sharing their story, they now hope to transform the way lunchtime drinks are provided to pupils right across Cardiff. That would take over 21,000 single use plastic bottles out of the city each year! Well done and thank you to all involved, this is important work and you should be very proud of yourselves.

2. All governors formally pledged to hold themselves to the very highest standards of conduct whilst performing this privileged role. Collectively, the full governing body is the group of people that have the legal responsibility for the school. If you would like to see a list of our governors please click here

3. We continued one of the FGB's primary functions which is to review, consider and adopt school policies. Up for consideration this time were the Safeguarding and the Equality policies. These vital documents ensure clarity, consistency and effective practice for the benefit of all within our

school community. You can find all of our current policies here.

4. We received a detailed report from the headteacher allowing us to track progress and monitor performance in a number of areas. The scrutiny, support and challenge given by governors helps achieve another primary function as the school's "critical friend". Update reports were also given by several sub- committee chairs. Sub-committees are made up of a smaller number of governors who meet separately throughout the year. They have responsibility for certain specific areas e.g. Health & Safety, Curriculum & Improvement, Safeguarding and Finance.

5. We took note that the proposal to expand Mynydd Bychan (MB) to a 2 form entry Welsh-medium primary school within the Allensbank Primary school building was accepted by the Council's cabinet on 18th January. This was a proposal the Ysgol Glan Ceubal (YCG) FGB formally objected to as part of a prior consultation exercise. We objected because we believe that this will impact on YGC in a negative way, resulting in fewer pupils being placed in Glan Ceubal. Fewer pupils coming to YGC (in favour of MB) means less funding for YGC, which comes in on a per pupil basis.

Following the announcement, we will continue lobbying the Council to consider future changes to expand the YGC catchment area to mitigate potential negative consequences for our school.